CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
4 Mai 2016, NEUADD PENMYNYDD 7.30yh

YN BRESENNOL : Cyng D I Roberts, E Williams, A Evans, S Hughes, J Evans (Cyngor Sir), M Jones (Cyngor Sir), G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng R Edwards, R Davies, G Roberts, N Jones, A Mummery (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan Cyng D I Roberts.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Cyng R Davies - cais cynllunio Afallon, Penmynydd, er nad oedd yn bresennol
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 6 Ebrill 2016. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Lon Garnedd Isaf** - mewn llaw
4.2	**Tyllau yn y ffordd tu ol i Bryn ffynnon** - mewn llaw
4.3	**Gor-yrru Penmynydd** - mewn llaw
4.4	**Cyflwr y coed ar tir y tai elusendai a dyfodol yr eglwys** - mewn llaw (disgwyl am adroddiad gan Cyng R Edwards)
4.5	**Lamp stryd** (Tai Cyngor Penmynydd) - mae'r Clerc wedi derbyn pris gan y Cyngor Sir £350 - penderfynwyd symud ymlaen.
4.6	**Trin y cysgodfan bws, Star** - Mae'r Clerc wedi derbyn pris gan William Evans a'i fab - £100 + TAW. Penderfynwyd symud ymlaen.
4.7	**Maes chwarae** - mewn llaw
5	**Gohebiaeth Cyngor Ynys Mon**
	Cynllunio
5.1	41C129A/VAR Cais o dan Adran 73 i ddiwygio amodau 02 a 03 o ganiatad cynllunio rhif 17C465A (Cais amlinellol ar gyfer dymchwel annedd a chodi un newydd yn ei le) i alluogi tair mlynedd pellach i gyflwyno cais materion a gadwyd yn ol yn Curlew Cottage, Penhesgyn Hall. - dim sylwadau
5.2	41C137 cais amlinellol ar gyfer codi annedd yn cynnwys manylion llawn am y fynediad yn Afallon, Penmynydd - dim sylwadau
	Priffyrdd
5.3	Pris am lamp - gweler 4.5
6	**Gohebiaeth Ychwanegol**
6.1	Unllais Cymru - Ymgynghoriad: Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - gwybodaeth
6.2	Cyfarfod Cyhoeddus Llyfrgelloedd - Bydd cyfarfod cyhoeddus yn cael ei gynnal ar 18 Mai i ystyried cael gwirfoddolwyr i helpu rhedeg y gwasanaeth
7	**MATERION ARIANNOL**
7.1	Penderfyniwid talu: Yswiriant Zurich £288.27
	MATERION ERAILL - dim
	Llofnod **Cadeirydd** **01.06.16**